# Malwod dŵr croyw
## Prydain ac Iwerddon

Gan Ben Rowson, Harry Powell, Martin Willing,
Michael Dobson a Hannah Shaw



national museum wales
amgueddfa cymru
The Conchological Society of Great Britain & Ireland
CRONFA DREFTADAETH HERITAGE FUND
AIDGAP Aids to Identification in Difficult Groups of Animals and Plants


## Allwedd i'r malwod dŵr croyw

CC BY NC ND

Wedi'i addasu o Rowson, Powell, Willing, Dobson a Shaw 2021, © Amgueddfa Cymru / FSC 2021

**Dechreuwch yma**

Ydi'r gragen yn fflat a throellog?
Fel siâp olwyn?




✘ → **Allwedd i'r malwod pigog** (tudalen 5)


✔ ↓

Ydi'r agoriad yn **amlwg** yn siâp cylch ac oes caead i'r gragen (yn weladwy)?

✘ → **Allwedd i'r malwod gwastad** (tudalen 2)

✔ ↓

***Valvata cristata*** (Malwen Falf Wastad)




Yr unig falwen wastad gyda chaead, naill ai yn weladwy yn yr agoriad neu trwy'r gragen. Yn wahanol i falwod corn-maharen (Planorbidae) mae'r agoriad a'r droell allanol ar yr ochor arall (ochr dde).

Addaswyd o Rowson et al 2021. *Freshwater snails of Britain and Ireland.* CC BY NC ND

# Allwedd i'r **malwod gwastad**

## Dechreuwch yma

Ydi'r agoriad yn siâp calon neu'n siâp llythyren V, gydag ymyl onglog? Llai na 10 mm o led.

- ✔ → Oes asennau gwyn i'w gweld yn y gragen?
- ✘ → Oes pump neu fwy o droellau, ac ydi'r troellau yn cynyddu mewn maint yn raddol?

Oes pump neu fwy o droellau, ac ydi'r troellau yn cynyddu mewn maint yn raddol?

- ✔ → Ydi'r troellau yn fwy tal na llydan, ac ydi'r agoriad yn gul ac yn siâp cilgant?
- ✘ → Drosodd

Ydi'r troellau yn fwy tal na llydan, ac ydi'r agoriad yn gul ac yn siâp cilgant?

- ✔ → *Bathyomphalus contortus*
- ✘ → Oes cêl amlwg o gwmpas ochr allanol y gragen?


Oes cêl amlwg o gwmpas ochr allanol y gragen?

- ✔ → *Anisus vortex* neu *Anisus vorticulus*
- ✘ → *Anisus leucostoma*

Oes asennau gwyn i'w gweld yn y gragen?


- ✔ → *Segmentina nitida*
- ✘ → *Hippeutis complanatus*

### ***Anisus leucostoma*** (Malwen Gorn-Maharen Wefus Wen)




Rhywogaeth gyffredin, gydag agoriad crwn. Tueddu i fyw mewn pyllau tymhorol.

### ***Bathyomphalus contortus*** (Malwen Gorn-Maharen Droellog)



Mae'r gragen wedi troelli'n dynn ac mae'r ochr waelod yn geugrwm.

### ***Hippeutis complanatus*** (Malwen Gorn-Maharen Wastad)




Rhywogaeth gyffredin. Mae arwyneb ochr uchaf ac ochr waelod y gragen yn amgrwm ac yn lliw pŵl.

### ***Segmentina nitida*** (Malwen Gorn-Maharen Sgleiniog)



Rhywogaeth **brin**, mae'n byw mewn ffosydd yn ne Lloegr. Dim ond ochr waelod y gragen sy'n geugrwm. Mae arwyneb y gragen yn loyw.


### ***Anisus vortex*** (Malwen Gorn-Maharen Trobwll)



Rhywogaeth gyffredin gyda chêl ar ymyl yr ochr waelod, sydd yn wastad.

**Neu**

### ***Anisus vorticulus*** (Malwen Gorn-Maharen Fechan)



Rhywogaeth **brin**, cêl yng nghanol y troellau. Mae'n byw mewn ffosydd yn ne Lloegr yn unig.

Addaswyd o Rowson et al 2021. *Freshwater snails of Britain and Ireland.* CC BY NC ND

Oes cêl amlwg o gwmpas ochr allanol y gragen **ac** ydi lled y gragen yn fwy na 10 mm?

Ydi'r agoriad yn gymharol fawr ac ydi'r droell allanol **yn amlwg** yn fwy na 1/3 o led y gragen (wrth edrych ar yr ochr waelod)?

Ydi lled y gragen yn fwy na 10 mm?

Drosodd

Ydi'r droell allanol ar ogwydd (wrth edrych o'r ochr)?

Ydi'r gragen yn siâp tiwba ac yn llai na 4 mm o led? Ydi'r taldra'r agoriad yn fwy na thaldra'r droell flaenorol?

## ***Menetus dilatatus*** (Malwen Gorn-Maharen Utgorn)



Anghyffredin ond yn lledaenu. Mae'r agoriad yn dalach nag un *Gyraulus crista*. Mae'r ochr uchaf yn wastad.



## ***Planorbella* sp.** (Malwod Corn-Maharen Addurnol)




Rhywogaeth **brin** ac anfrodorol sy'n byw mewn acwaria a dŵr poeth. Mae cêl ar y troellau mewnol.



Ydi'r cêl yng nghanol ymyl y gragen? Ydi'r droell allanol yn llydan, ddwywaith yn fwy llydan na'r droell fewnol (wrth edrych o'r top)?


## ***Planorbarius corneus*** (ifanc)



Mae gan *P. corneus* **ifanc** (llai na 6 mm o led) agoriad tal, troellau crwn a rhychau troellog bach. Weithiau mae rhesi o flew byr.




## ***Planorbis planorbis*** (Malwen Gorn-Maharen Min-Llydan)




Mae'r cêl yn gryf drwy gydol oes y falwen ac mae'r agoriad yn weddol grwn. Mae'r gragen fel arfer yn ddi-sglein pan mae'r falwen yn fyw.




## ***Planorbarius corneus*** (Malwen Gorn-Maharen Fwyaf)





Mawr iawn, fel arfer yn fwy na 20 mm. Mae'r troellau yn grwn.

## ***Planorbis carinatus*** (Malwen Gorn-Maharen Gelog)



Mae'r agoriad yn fwy pigog. Mae'r gragen fel arfer yn sgleiniog pan mae'r falwen yn fyw. Mae'r cêl yn gryf drwy gydol oes y falwen.



Allwedd i'r malwod gwastad

Addaswyd o Rowson et al 2021. *Freshwater snails of Britain and Ireland*. CC BY NC ND

Ydi'r gragen yn amlwg yn dryloyw?

Oes cêl aflem o gwmpas ochr allanol y gragen?


Ydi'r cêl yng nghanol y droell?

## ***Gyraulus chinensis*** (Malwen Gorn-Maharen Tŷ Gwydr)



Cragen weddol lefn. Rhywogaeth **brin** ac anfrodorol sy'n byw mewn acwaria a dŵr poeth.


## ***Gyraulus acronicus*** (Malwen Gorn-Maharen Tafwys)



Rhywogaeth brin, mae'n byw yn isafonydd afon Tafwys yn unig. Mae'r cêl yn llai amlwg na rhywogaethau *Planorbis*.


Oes rhigolau bach sy'n rhedeg ar hyd troellau'r gragen?

## ***Gyraulus crista*** (Malwen Gorn-Maharen Wrymiog)




Agoriad lydan. Arwyneb uchaf yn fflat. Rhychau neu asennau fel arfer ar yr ochr uchaf, ond gall fod yn llyfn hefyd.

## ***Gyraulus laevis*** (Malwen Gorn-Maharen Lefn)



Rhywogaeth anghyffredin sy'n byw mewn dŵr glân. Mae arwyneb y gragen bron yn llyfn.

## ***Gyraulus albus*** (Malwen Gorn-Maharen Wen)



Rhywogaeth gyffredin. Mae rhigolau bach yn rhedeg ar hyd y troellau. Yn aml yn welw neu'n wyn.

Addaswyd o Rowson et al 2021. *Freshwater snails of Britain and Ireland*. (cc) BY NC ND


# Allwedd i'r **malwod pigog** â'r **brennig**

## Dechreuwch yma

Ydi'r gragen yn siâp cap neu dwmpath, heb dorch?

- ✔ → *Ancylus fluviatilis* / *Acroloxus lacustris* / *Ferrissia californica*
- ✘ → Oes yna gaead?


### ***Ancylus fluviatilis*** (Brenigen yr Afon)



Byw mewn dŵr sy'n llifo. Mae'r gragen yn **hir** ac yn **grwn** wrth edrych o'r ochr. Mae'r pig yn pwyntio at gefn y gragen wrth edrych o'r top.

**Neu**


### ***Acroloxus lacustris*** (Brenigen y Llyn)



Mae'r rhywogaeth yn byw mewn dŵr llonydd. Mae'r gragen yn hir ac mae'r pig yn pwyntio i'r chwith (wrth edrych o'r top).

**Neu**

### ***Ferrissia californica*** (Brenigen Afon Americanaidd)



Rhywogaeth **brin** ac anfrodorol. Cragen hir. Mae'r pig yn pwyntio i'r **dde** (wrth edrych o'r top).

---

Oes yna gaead? **Dilynwch "?" os yw'r anifail wedi marw a'r gragen yn wag.**

- ✔ → Ydi'r gragen yn drwchus ac ydi'r cogwrn yn bŵl, bron yn wastad? (right)
- ? → Ydi'r gragen yn drwchus ac ydi'r cogwrn yn bŵl, bron yn wastad? (below)


Ydi'r gragen yn drwchus ac ydi'r cogwrn yn bŵl, bron yn wastad?

- ✔ → *Theodoxus fluviatilis*
- ✘ → Os yw'r agoriad yn eich wynebu, a'r cogwrn yn pwyntio i fyny, ydi'r agoriad ar y chwith?

Ydi'r gragen yn drwchus ac ydi'r cogwrn yn bŵl, bron yn wastad? (after "Oes yna gaead?" ✔)

- ✔ → *Theodoxus fluviatilis*
- ✘ → Ydi'r gragen yn fawr (mwy na 20 mm), **ac** yn weddol llydan (tua 3/4 ei hyd)?

### ***Theodoxus fluviatilis*** (Cragen Neidr yr Afon)



Mae'r gragen yn dywyll gyda phatrwm blotiog. Mae'r agoriad yn welw. Caead melyn neu oren.

Ydi'r gragen yn fawr (mwy na 20 mm), **ac** yn weddol llydan (tua 3/4 ei hyd)?

- ✔ → Oes bandiau brown llorweddol ar y cragen?
- ✘ → Drosodd

Oes bandiau brown llorweddol ar y cragen?

- ✔ → Drosodd
- ✘ → Drosodd


Os yw'r agoriad yn eich wynebu, a'r cogwrn yn pwyntio i fyny, ydi'r agoriad ar y chwith?

- ✔ → Ydi'r gragen yn denau ac yn bigog? Ydi'r agoriad tua 1/2 uchder y gragen?
- ✘ → Ydi ymyl yr agoriad (amsafn) yn ddi-dor, yn hytrach na'i bod yn ymuno â'r droell olaf?

Ydi'r gragen yn denau ac yn bigog? Ydi'r agoriad tua 1/2 uchder y gragen?

- ✔ → *Aplexa hypnorum*
- ✘ → Ydi'r gragen yn bŵl **ac** yn grwn, hyd at 12 mm o daldra?

### ***Aplexa hypnorum*** (Malwen Lefn Fwsog)



Cragen lefn. Tueddu i fyw mewn pyllau tymhorol a ffosydd.

Ydi'r gragen yn bŵl **ac** yn grwn, hyd at 12 mm o daldra?

- ✔ → *Physa fontinalis*
- ✘ → *Physella acuta* a *Physella gyrina*

### ***Physella acuta*** a ***Physella gyrina***



Dyma ddisgrifiad o'r ddwy *Falwen Physella* sp. Mae'n anodd gwahaniaethu rhwng y ddwy rywogaeth ar sail y gragen yn unig. Fel arfer mae gan *Physella acuta* (chwith) gogwrn tal, mae'r galeden yn gul, ac mae uchder y gragen yn tua 13 mm. Mae cogwrn cragen *Physella gyrina* (dde) yn fyr, mae'r galeden yn llydan ac mae uchder y gragen yn aml yn fwy na 13 mm.

### ***Physa fontinalis*** (Malwen Lefn Gyffredin)



Mae'r pig yn bŵl ac mae'r galeden yn llydan. Pan yn fyw, mae'r fantell yn ymestyn dros y gragen fel bysedd.

Ydi ymyl yr agoriad (amsafn) yn ddi-dor, yn hytrach na'i bod yn ymuno â'r droell olaf? (**os yw'r ymyl yn ddi-dor, yna bydd gan y rhywogaeth gaead**).

- ✔ → Oes yna gaead?
- ✘ → Cregyn gyda'r agoriad ar y dde ac amsafn sy'n ymuno gyda'r droell olaf.


Cregyn gyda'r agoriad ar y dde ac amsafn sy'n ymuno gyda'r droell olaf.

Ewch i dudalen 7

Addaswyd o Rowson et al 2021. *Freshwater snails of Britain and Ireland*. CC BY NC ND

Ydi ochr uchaf yr agoriad yn llyfn ac yn grwn?

✔ → **_Viviparus contectus_** (Malwen Afon Lister)



Mae'r pig yn bigog (defnyddiwch eich bys i deimlo). Mae'r bogail yn llydan ac mae'r asiadau yn ddwfn.

✘ → **_Viviparus viviparus_** (Malwen Gyffredin yr Afon)



Pig pŵl (defnyddiwch eich bys i deimlo). Mae'r bogail yn fach ac wedi'i orchuddio. Asiadau bas.

**_Cipangopaludina chinensis_** (Malwen Ddirgel Tsieineaidd)




Cragen fawr (hyd at 60 mm). Yn aml mae gwrymiau tu ôl i'r agoriad ar y droell olaf. Cragen werdd. Mae gan rai ifanc fandiau brown. Rhywogaeth **brin** ac anfrodorol.

Ydi'r gragen yn fwy tal na llydan? Ydi'r cogwrn yn dal?

✔ → Ydi'r gragen yn dal ac yn bigog, gyda gwrymiau amlwg, llorweddol?

✔ → **_Melanoides tuberculata_** (Melania Crib Goch)



Yn aml mae'r gragen wedi'i gorchuddio gyda smotiau coch. Rhywogaeth **brin** ac anfrodorol sy'n byw mewn acwaria a dŵr poeth.

✘ → All y caead fynd yn ddwfn tu fewn i'r gragen?

✔ → All y caead fynd yn ddwfn tu fewn i'r gragen? **Ewch i dop tudalen 8**

✘ → Ydi ochr uchaf yr agoriad yn onglog?

✔ → **_Bithynia tentaculata_** (Malwen Ddŵr Dywyll)




Asiadau bas. Agoriad siâp deigryn. Cragen fwy na *B. leachii*.

✘ → **Drosodd**

✘ → Ydi'r droell allanol yn gorchuddio mwy na 1/3 o led yr agoriad?

✘ → **_Valvata macrostoma_** (Malwen Falf Geg Fawr)



Lled yn fwy na'r taldra. Mae'r bogail yn llydan, tua 1/3 lled y gragen. Rhywogaeth **brin**, wedi sefydlu mewn ffosydd yn ne Lloegr.

Tebyg i gragen Valvata cristata, sy'n hollol wastad.

✔ → **_Valvata piscinalis_** (Malwen Falf Gyffredin)



Tua'r un hyd a lled. Mae'r bogail yn gul, tua 1/4 lled y gragen. Cyffredin.

Mae'r gragen yn debyg i Viviparus ifanc, ond mae gan Viviparus fandiau brown llorweddol a bogail llai fyth.


Addaswyd o Rowson et al 2021. *Freshwater snails of Britain and Ireland*.

### ***Myxas glutinosa*** (Malwen Ludiog)




Mae'r corff meddal (mantell) yn gorchuddio rhan o'r gragen os yw'r anifail yn fyw. Mae'r galeden yn llydan ond yn denau. Rhywogaeth **brin**, i'w gweld mewn dŵr glan yng ngogledd Cymru ac Iwerddon yn unig.

### ***Radix auricularia*** (Malwen Ddŵr Glustiog)




Cogwrn byr a pigog. Mae plygiad amlwg yn y golofnig yn aml. Mae'n byw ar dir isel.

### ***Radix rubiginosa*** (Malwen Ddŵr Acwariwm)



Caleden fel arfer yn llydan. Rhywogaeth brin ac anfrodorol sy'n byw mewn acwaria a dŵr poeth.

### ***Ampullaceana balthica*** (Malwen Ddŵr Grwydrol)



Caleden fel arfer yn gul. Agoriad siâp deigryn. Rhywogaeth amrywiol – os ydych chi'n ansicr o sbesimen "Radix" neu "Myxas", mae'n debygol mai hon yw'r rhywogaeth. Cyffredin.

Ydi'r gragen yn denau iawn ac yn dryloyw, heb gogwrn? ✔ → *Myxas glutinosa*; ✘ →

Ydi'r agoriad yn siâp clust llydan? Ydi ymyl yr agoriad yn ymuno â'r droell olaf ar ongl sgwâr? ✔ → *Radix auricularia*; ✘ →


Ydi'r cogwrn yn eithaf tal, ac ydi ymyl yr agoriad yn weddol syth? ✔ → *Radix rubiginosa*; ✘ → *Ampullaceana balthica*

Ydi'r agoriad yn dal iawn, tua 2/3 uchder y gragen? ✔ → Ydi'r gragen yn denau iawn ac yn dryloyw, heb gogwrn?; ✘ →

Ydi'r cogwrn yn fwy cul na'r troell olaf? Oes 'step' nodweddiadol ar ymyl yr agoriad? ✔ → *Lymnaea stagnalis*; ✘ →

Ydi'r gragen yn hir **ac** ydi'r agoriad yn fychan (tua 1/3 maint y gragen)? ✔ → *Omphiscola glabra*; ✘ → Drosodd

### ***Omphiscola glabra*** (Malwen Ddŵr y Mwd)




Mae'r gragen yn fain, o'r gwaelod i'r pig. Rhywogaeth **brin**, mae'n byw mewn pyllau tymhorol.

### ***Bithynia leachii*** (Malwen Leach)



Asiadau dwfn. Agoriad crwn. Cragen llai na *B. tentaculata*.

### ***Lymnaea stagnalis*** (Malwen Ddŵr Fawr)



Mawr (hyd at 45 mm), mae'r agoriad tua hanner hyd y gragen.

**O dudalen 5** →

Ydi'r gragen yn fawr (mwy na 6 mm) ac ydi'r agoriad yn dal (tua 1/3 uchder y gragen)? ✔ → Ydi'r agoriad yn dal iawn, tua 2/3 uchder y gragen?; ✘ → Drosodd

Addaswyd o Rowson et al 2021. *Freshwater snails of Britain and Ireland*. CC BY NC ND

O dudalen 6

Cregyn gyda chaead sy'n ddwfn tu fewn i'r gragen.

Ydi'r asiadau yn fas, gan olygu bod ochrau'r gragen bron yn syth?
- ✔ → Ydi'r agoriad yn gul gyda dannedd amlwg?
- ✘ → Drosodd

Ydi'r agoriad yn gul gyda dannedd amlwg?
- ✔ → *Leucophytia bidentata* neu *Myosotella myosotis*
- ✘ → Ydi'r gragen yn fain ac ydi'r taldra yn fwy na dwywaith y lled?

Ydi'r gragen yn fain ac ydi'r taldra yn fwy na dwywaith y lled?
- ✔ → *Peringia ulvae*
- ✘ → *Assiminea grayana*

## ***Peringia ulvae***
## (Malwen Gogwrn y Lafwr)



Mae'r rhywogaeth yn byw mewn dŵr hallt, rhynglanwol. Mae'r gragen yn fain, yn siâp côn, ac yn drwchus iawn.

## ***Assiminea grayana***
## (Mor-Falwen Lwyd)



Mae'r rhywogaeth yn byw yn **uwch na'r rhynglanw**. Mae'r gragen yn weddol fyr ac yn gonigol.

## ***Leucophytia bidentata***
## (Malwen Ddeuddant Wen)



Cragen drwchus, wen. 2 ddant ar ochr fewnol yr agoriad. Mae'r rhywogaeth yn byw mewn dŵr lled hallt mewn morfeydd, morlynoedd ac ar rai traethau.

**Neu**


## ***Myosotella myosotis***
## (Malwen Ddanheddog)



Cragen denau a brown. 2-4 ddant ar ochr fewnol yr agoriad ac mae 0-7 ar yr ochr allanol. Mae'r rhywogaeth yn byw mewn dŵr lled hallt mewn morfeydd, morlynoedd ac ar rai traethau.

Oes gan y gragen asiadau dwfn, troellau grisiog a bogail agored?
- ✔ → *Galba truncatula*
- ✘ → *Stagnicola* sp.

## ***Stagnicola* sp. (Malwod y Gors)**



Mae'r gragen yn fwy cywasgedig na *Lymnaea stagnalis*. Fel arfer mae arwyneb y gragen yn gris-croes. Mae'r malwod ifanc yn edrych yn debyg i *Galba truncatula*. Rhaid dyrannu'r corff meddal i wahaniaethu rhwng y ddwy rywogaeth *Stagnicola*.

## ***Galba truncatula***
## (Malwen Ddŵr Fechan)



Agoriad siâp hirgrwn. Mae'r rhywogaeth yn byw tu allan i'r dŵr fel arfer.

Addaswyd o Rowson et al 2021. *Freshwater snails of Britain and Ireland*. CC BY NC ND

Ydi'r gragen yn fain ac ydi'r taldra yn fwy na thair gwaith y lled?

- ✔ → Oes gan y gragen fwy na 6 troell?
- ✘ → Ydi'r gragen yn grwn a'r taldra prin yn fwy na'r lled?

Ydi'r gragen yn grwn a'r taldra prin yn fwy na'r lled?

- ✔ → *Paludinella globularis* (Malwen y Morlyn)
- ✘ → Ydi'r pig yn fflat ac ydi'r agoriad yn mesur tua 1/3 o daldra'r gragen?

Ydi'r pig yn fflat ac ydi'r agoriad yn mesur tua 1/3 o daldra'r gragen?

- ✔ → *Marstoniopsis insubrica* (Malwen Gogwrn Taylor)
- ✘ → *Mercuria anatina* (Malwen Gogwrn Chwyddedig)

Oes gan y gragen fwy na 6 troell?

- ✔ → *Ecrobia ventrosa* ac *Hydrobia acuta neglecta* a *Semisalsa stagnorum*
- ✘ → Oes gan y gragen asennau amlwg, troellau sydd yr un maint, a phig gwastad?

Oes gan y gragen asennau amlwg, troellau sydd yr un maint, a phig gwastad?

- ✔ → *Truncatella subcylindrica* (Malwen Ddolennu)
- ✘ → *Potamopyrgus antipodarum* (Malwen Siencyn)

## *Paludinella globularis* (Malwen y Morlyn)



Rhywogaeth **brin**, mae'n byw ar neu uwchben y rhynglanw ar arfordiroedd ac aberoedd yn ne-orllewin Prydain; fel arfer tu allan i'r dŵr. Bychan (hyd at 2 mm), melynfrown. Yn wahanol i falwod morol (e.e. gwichiaid), mae gan *P. globularis* dentaclau llygad byr.

## *Marstoniopsis insubrica* (Malwen Gogwrn Taylor)




Rhywogaeth **brin**, mae'n byw mewn dŵr croyw, mewn rhai camlesi ac afonydd mewndirol yn Lloegr a de'r Alban. Mae'r agoriad yn llai nag un *Mercuria anatina*. Bychan (hyd at 3 mm).

## *Mercuria anatina* (Malwen Gogwrn Chwyddedig)




Rhywogaeth **brin**, mae'n byw mewn **dŵr lled hallt** mewn rhai aberoedd yn ne Lloegr a de Iwerddon. Mae'r agoriad bron yn 1/2 taldra'r gragen. Bychan (hyd at 4 mm)

## *Potamopyrgus antipodarum* (Malwen Siencyn)



Rhywogaeth **hynod gyffredin** ym mhob math o **ddŵr croyw**. Mae hefyd yn byw mewn dŵr lled hallt. Mae'r droell olaf yn eithaf mawr, weithiau mae cêl amlwg ar y troellau ac ar y cêl mae gwrych fel amrannau. Bach (hyd at 5.5 mm).


## *Ecrobia ventrosa* ac *Hydrobia acuta neglecta* a *Semisalsa stagnorum*



Mae'r tair rhywogaeth yma yn brin. Maen nhw'n byw mewn **dŵr lled hallt**, **ond ddim mewn dŵr rhynglanwol**. Maen nhw'n fwy main ac yn llai na *Potamopyrgus antipodarum* neu *Peringia ulvae*.

Nid yw'n bosib gwahaniaethu'r tair rhywogaeth gyda'r allwedd yn unig (defnyddiwch y 'species accounts' yn ein llyfr am fwy o fanylion).

## *Truncatella subcylindrica* (Malwen Ddolennu)



Rhywogaeth brin, mae'n byw ar neu uwchben y rhynglanw creigiog yn ne Lloegr ac yng ngorllewin Iwerddon; fel arfer tu allan i'r dŵr. Mae gan gregyn anifeiliaid ifanc fwy na 6 troell a phig pigog. Mewn oedolion, mae'r troellau brigol yn diflannu ac mae'r pig yn wastad.